
# Gwerthusiad Rhwydwaith Cyflogwyr

26 Mehefin 2024



***"Yn y gorffennol rydyn ni wedi gwneud hyfforddiant gorfodol ac wedi talu am hyn oherwydd doedden ni ddim eisiau cymryd rhan yn y fiwrocratiaeth sy'n dod gyda hawlio gan CITB"*** – *cyflogwr a gymerodd ran*



# Dull y Gwerthusiad

**Wedi'i gynllunio i ddarparu hyfforddiant i'r timau gweithredol**

- Sesiynau adborth gan gynnwys adroddiadau a gyflwynir yn fisol trwy gydol 2023 a dechrau 2024.

**Yn seiliedig ar ddata MI misol, cyfweliadau ansoddol a data arolwg**

- 107 o gyfweliadau â rhanddeiliaid.
- 320 o ymatebion i'r arolwg gan gyflogwyr a gymerodd ran.

**Darparu arwydd o lwyddiant yn erbyn cwestiynau gwerthuso a nodwyd a chanlyniadau'r peilot**

- 4 cwestiwn gwerthuso craidd, pob un ag is-gwestiynau
- 3 chwestiwn eilaidd heb is-gwestiynau
- Mae'r canlyniadau'n cynnwys y rhai sy'n adlewyrchu taith y Rhwydwaith Cyflogwyr

***“Mae wedi dangos ochr wahanol i CITB, yn fwy hygyrch a defnyddiol”** – cyflogwr a gymerodd ran*



# Casgliadau Allweddol

**Gwell mynediad at hyfforddiant trwy symleiddio'r broses.**

- Heb gynnwys y chwarter cyntaf o weithredu, fe wnaeth pob mis rhagori ar y targed o 25% o gyflogwyr a oedd wedi ymddieithrio yn flaenorol.
- Dywedodd 86% o gyflogwyr fod y broses o gyrchu hyfforddiant yn symlach na phrofiadau blaenorol o gyrchu hyfforddiant.
- Roedd 78% o gyflogwyr a ddefnyddiodd y Rhwydweithiau Cyflogwyr yn gyflogwyr bach a meicro.

**Mae canfyddiad o werth yn bwysicach i gyflogwyr nag arian yn ôl.**

- Er na chawsant unrhyw 'arian' gan CITB ni chyfeiriodd unrhyw gyflogwyr at hyn wrth gael eu cyfweld.
- Cyfeiriodd mwyafrif y cyflogwyr at fuddion megis arbed amser.
- Dywedodd 80% o gyflogwyr yn yr arolwg fod Rhwydweithiau Cyflogwyr wedi nodi eu bod yn fwy tebygol o wneud mwy o hyfforddiant yn y dyfodol.
- Dywedodd 71% o gyflogwyr yn yr arolwg fod hwn wedi gwella eu canfyddiad o CITB.
- Mae cyflogwyr llai yn gwerthfawrogi gallu siarad â rhywun / cael cyswllt y gellir ymddiried ynddo.

**Hyd yn hyn mae blaenoriaethau hyfforddiant yn parhau i ganolbwyntio ar hyfforddiant craidd, yn ôl y disgwyl.**

- Mae llawer o gyflogwyr yn mynegi eu hanghenion hyfforddiant trwy fatricsau hyfforddi hanesyddol.
- Roedd y cyrsiau mwyaf poblogaidd a gyrchwyd yn gysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch.
- Mae'r budd mwyaf eglur o fynychu hyfforddiant a nodwyd gan gyflogwyr yn ymwneud â diogelwch.

***“Ni allaf feddwl am unrhyw beth a allai ei helpu i fod yn well, fe ragorodd ar fy nisgwyliadau o’r cychwyn cyntaf, felly mae wedi bod yn wych.”*** *– cyflogwr a gymerodd ran*



# Argymhellion

- Cysondeb ar beth sy’n cael ei gynnig a’r cyfathrebu o’r hyn a ariennir.
- Datblygu perthnasau cyson gyda darparwyr hyfforddiant lleol.
- Datblygu datrysiad technegol i gynorthwyo cipio a monitro data.
- Integreiddio cysylltiadau â chymorth seiliedig ar yrfaoedd i Gyflogwyr.
- Buddsoddi mewn amser i weithio gyda Chyflogwyr i wir ddeall eu hanghenion hyfforddiant.

***“Mae cyflogwyr yn elwa oherwydd bod ganddynt broses haws ar gyfer cyrchu hyfforddiant, mae cyllid yn symlach, gellir cyrchu fwy o fathau o hyfforddiant, a chant eu cyfeirio at ddarparwyr hyfforddiant priodol.”*** *– darparwr hyfforddiant a gymerodd ran*



# Ystadegau Allweddol

Cefnogwyd dros 15,000 o ddysgwyr

Cefnogwyd dros 300 o gyflogwyr a oedd wedi ymddieithrio yn flaenorol

97% o gyflogwyr wedi nodi eu bod wedi cael profiad cadarnhaol o leiaf o'r Rhwydweithiau Cyflogwyr[2]

Dywedodd 86% o gyflogwyr fod y broses o gyrchu hyfforddiant yn symlach na phrofiadau blaenorol o gyrchu hyfforddiant[4]

Cefnogwyd dros 1,000 o gyflogwyr gwahanol (c. 77% ohonynt yn gyflogwyr Bach neu Feicro)

71% o gyflogwyr wedi datgan bod eu barn o CITB wedi gwella[1]

Dywedodd 80% o gyflogwyr eu bod yn debygol o wneud mwy o hyfforddiant yn y dyfodol[3]

Ystadegau a gymerwyd o hyd y cyfnod peilot Gorffennaf 2022 i Ebrill 2024

[1] Y cwestiwn a gofynnwyd: ‘Ar ôl defnyddio’r Rhwydwaith Cyflogwyr, a yw eich argraff ar CITB wedi newid?’

[2] Y cwestiwn a gofynnwyd: ‘Sut fyddech chi’n graddio eich profiad cyffredinol o’r Rhwydwaith Cyflogwyr?’

[3] Y cwestiwn a gofynnwyd: ‘Ar ôl defnyddio’r Rhwydwaith Cyflogwyr, a yw hyn wedi newid eich canfyddiad o hyfforddiant?’

[4] Y cwestiwn a gofynnwyd: ‘A oedd y broses o gyrchu hyfforddiant yn symlach na phrofiadau blaenorol o gyrchu hyfforddiant?’

***“Roedd yn symlach dim ond trwy gael y Rhwydwaith, gan eich bod chi’n anfon e-bost atynt gyda’r hyn sydd ei angen arnoch ac maent yn ei ffitio i chi. Maen nhw [CITB] yn edrych yn fwy trefnus nawr – mae’n symlach. Felly, o’r blaen roedd yn arfer cymryd eich amser ac roedd yna fiwrocratiaeth ond nawr mae’n arbed peth o’ch amser. Pam na chafodd hyn ei feddwl amdano ynghynt” –*** *cyflogwr a gymerodd ran*



citb